**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 2ail Mai, 2023, 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Jan Butler, Ben Callard, John Crook, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells, Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell, Ann Webb |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Craig O'Connor | Pennaeth Cynllunio |
| Philip Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Datblygu |
| Andrew Jones | Development Management Area Team Manager |
| Paige Moseley | Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol Sue Riley

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Roedd y Cynghorydd Sir Emma Bryn wedi datgan buddiant personol, nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â chais DM/2022/01800, gan ei bod wedi cynorthwyo gyda'r astudiaeth dichonoldeb yn casglu data sydd ei angen i barhau â'r astudiaeth gychwynnol i'r hyfywedd y prosiect, gan siarad â defnyddwyr a phartïon â chanddynt ddiddordeb. Anerchodd y Pwyllgor ond gadawodd y cyfarfod yn fuan wedyn heb gymryd unrhyw ran yn y drefn bleidleisio ar gyfer y cais hwn.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 4ydd Ebrill 2023 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

3. **Cais DM/2022/00848 – Addasu cyn ganolfan ddydd i 6 fflat preswyl, ac adeiladu adeilad newydd sydd yn cynnwys 9 flat preswyl. Newid defnydd o ddosbarth D1 i C3, parcio, ehangu'r dramwyfa a'n gwneud gwaith tirlunio. Canolfan Ddydd Boverton House, Heol Bulwark, Cas-gwent, NP16 5JE.**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr yr argymhellwyd ei chymeradwyo gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Cyfreithiol A106.

Wrth nodi manylion y cais, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Bydd y wal derfyn yn cael ei chadw.

- Bydd gofod amwynder a rennir ar gyfer defnyddwyr y safle. Mae yna hefyd ardaloedd hamdden gerllaw.

- Byddai'r datblygwr yn cael ei annog i osod pwyntiau gwefru e-feiciau yn, neu gerllaw'r lloches parcio beiciau arfaethedig, yn ogystal â darparu mannau gwefru allanol ar gyfer sgwteri symudedd trydan.

- Bydd yr estyniad presennol yn cael ei ail-rendro a'i ail-baentio.

- Cysylltwyd â thri Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) gyda'r bwriad o ddatblygu'r safle. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'n anodd i LCC rannu rheolaeth a chynnal a chadw adeilad gyda landlord preifat. Felly, ni fanteisiodd un o'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar y cynnig i ddatblygu'r safle. Derbynnir cyfraniad tuag at dai fforddiadwy oddi ar y safle pe caniateir y datblygiad. Byddai adolygiad hyfywedd yn cael ei gynnwys yn y cytundeb A106, i'w ysgogi os na fydd datblygiad yn dechrau o fewn 18 mis i ddyddiad y caniatâd.

- Mae'r safle o fewn pellter cerdded i ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus. Darperir lefel resymol o lefydd parcio ar y safle. Bydd pob fflat yn cael o leiaf un lle parcio, gyda rhai yn cael dau le.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Jayne McKenna ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Ben Callard bod cais DM/2022/00848 yn cael ei ganiatáu gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Cyfreithiol A106. Bydd adolygiad hyfywedd yn cael ei gynnwys yn y Cytundeb Cyfreithiol A106 i'w ysgogi os na fydd datblygiad yn dechrau o fewn 18 mis i ddyddiad y caniatâd. Hefyd, byddai'r datblygwr yn cael ei annog i osod pwyntiau gwefru e-feiciau yn, neu gerllaw'r lloches parcio beiciau arfaethedig, yn ogystal â darparu mannau gwefru allanol ar gyfer sgwteri symudedd trydan.

Yn dilyn pleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| O blaid y cynnig | - 14 |
| Yn erbyn y cynnig | - 0 |
| Ymatal | - 0 |

Pleidleisiwyd o blaid y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2022/00848 yn amodol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Cyfreithiol A106. Byddai adolygiad hyfywedd yn cael ei gynnwys yn y Cytundeb Cyfreithiol A106, i'w ysgogi os na fydd datblygiad yn dechrau o fewn 18 mis i ddyddiad y caniatâd. Hefyd, byddai'r datblygwr yn cael ei annog i osod pwyntiau gwefru e-feiciau yn neu gerllaw'r lloches parcio beiciau arfaethedig, yn ogystal â darparu mannau gwefru allanol ar gyfer sgwteri symudedd trydan.

4. **Cais DM/2022/01800 - Adeiladu pont bwa sengl ar draws yr Afon Gwy gan gynnwys tirlunio ar y glannau dwyreiniol a gorllewinol a'n gwella tir y cyhoedd. Tir i'r gogledd o'r Afon Gwy, Trefynwy.**

Gwnaethom ystyried yr adroddiad ar y cais a'r ohebiaeth hwyr yr argymhellwyd ei chymeradwyo gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cymeradwyo'r Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 2ail Mai, 2023, 2.00 pm**

Amlinellodd yr Aelod lleol dros Wyesham, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwyntiau a ganlyn:

- Ym mis Tachwedd 2017 cyflwynodd trigolion lleol y syniad o bont cerddwyr yn Wyesham i'r Awdurdod lleol.

- Ers blynyddoedd lawer, bu'n rhaid i gerddwyr a beicwyr ddefnyddio'r bont ffordd bresennol i groesi'r afon. Mae trigolion wedi gorfod ymgodymu â Cherbydau Nwyddau Trwm (HGVs), llygredd, diffyg cyfleusterau beicio a diffyg cysylltiadau diogel â Wyesham a thu hwnt.

- Roedd Grŵp Llywio Teithio Llesol Cyngor Tref Trefynwy wedi'i sefydlu a gyda swyddogion Cyngor Sir Fynwy roedd yr Astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol wedi nodi'r angen am bont teithio llesol yn y lleoliad hwn.

- Roedd gwirfoddolwyr lleol wedi treulio eu hamser yn casglu'r data angenrheidiol i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru. Pobl leol fu'n gyrru'r cynllun arfaethedig hwn.

- Mae llawer iawn o draffig ar y ffordd yn mynd i Fforest y Ddena a thraffordd yr M50. Ystyriwyd y byddai hyn ond yn cynyddu yn y dyfodol gyda datblygiad tai arfaethedig yn Fforest y Ddena.

- Darparodd yr Aelod lleol ddata ystadegol i'r Pwyllgor i gefnogi'r angen am bont teithio llesol ar draws yr afon Gwy yn Wyesham.

- Y bont bresennol yw'r unig lwybr y gall trigolion Wyesham ei ddefnyddio i gael mynediad i addysg, gwaith a'r dref ac mae'n rhaid iddi rannu'r ffordd hon gyda HGVs a cherbydau eraill. Plant ysgol heb oruchwyliaeth sydd fwyaf mewn perygl o lifau traffig mor drwm yn ystod cyfnodau prysur o lif traffig dros y bont.

- Mae'r bont yn rhan o'r llwybrau dynodedig, Llwybr Dyffryn Gwy, Llwybr Cerdded Cenedlaethol Clawdd Offa ac mae'n gyswllt hanfodol yn y rhwydwaith beicio cenedlaethol.

Wedi ystyried yr adroddiad ar y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- O ran hygyrchedd i bobl â nam ar eu golwg, byddai swyddogion yn trafod gyda'r datblygwr a ydynt wedi cael deialog gyda Sight Cymru ac unrhyw grwpiau diddordeb arbenigol eraill a allai roi cyngor ar y mater hwn. Nodwyd bod cyfarfod rhanddeiliaid hygyrchedd wedi'i gynnal ar 9 Mawrth 2023 ynghylch pobl â nam ar eu golwg.

- Nid yw'r bont bresennol bellach yn ddiogel i feicwyr a cherddwyr.

- Nid oes unrhyw fannau parcio beiciau arfaethedig i'w lleoli ger Clwb Rhwyfo Trefynwy. Fodd bynnag, gallai swyddogion roi'r mater hwn i'r ymgeisydd ei ystyried.

- Mae amod yn adroddiad y cais am gynllun rheoli traffig adeiladu a allai fynd i'r afael â'r mater yn ymwneud â defnydd y maes parcio cyfagos gan weithwyr adeiladu, gyda'r nod o leihau unrhyw aflonyddwch.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynglŷn â sut y gallai trigolion lleol mewn bythynnod cyfagos gael eu heffeithio gan y bont newydd arfaethedig, nodwyd y bydd y llwybr cerdded oddeutu 40 metr o ffenestri agosaf yr eiddo hyn a 25 metr i'r agosaf. rhan o'r gerddi. Bydd y bont yn uchel a bydd ganddi sgrin 1.8 metr. Bydd y golau ar y bont yn isel ar hyd yr ardal ddec ac ni fydd golau'n mynd o'r bont i mewn i'r amgylchoedd.

- Bydd cynllun rheoli traffig adeiladu yn cael ei sefydlu er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y safle.

- Bydd swyddogion yn cysylltu â'r ymgeisydd i ymchwilio a fydd goleuadau PIR yn gweithio ar y bont a'r rampiau.

- Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r datblygwr i sicrhau bod llystyfiant yn cael ei gynnal ar lefel isel er mwyn gwella gweleded ar hyd y llwybr ger y fynedfa i'r A40 er mwyn sicrhau y gellir gweld beicwyr a cherddwyr.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Jayne McKenna ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Sir Maureen Powell bod cais DM/2022/01800 yn cael ei gymeradwyo gyda’r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cymeradwyo’r Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd (GRhC). Hefyd, cynllun diwygiedig i'w gyflwyno i'r Panel Dirprwyo i'w gymeradwyo i ddangos y maes parcio ar y lan orllewinol i gael llecynnau parcio ar gyfer dwy fan a threlars i'r busnesau caiacio lleol eu defnyddio; gofyn i'r ymgeisydd edrych ar ongl sgwâr y llwybr ar y lan orllewinol i'w wasgaru neu wneud yn siŵr nad yw'r plannu wrth ei ymyl yn cuddio gweledEdd i ddefnyddwyr y llwybr; yr ymgeisydd i ymchwilio a fyddai goleuadau PIR yn gweithio ar y bont a'r rampiau.

Yn dilyn pleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| O blaid y cynnig | - 14 |
| Yn erbyn y cynnig | - 0 |
| Ymatal | - 0 |

Pleidleisiwyd o blaid y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2022/01800 yn amodol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cymeradwyo'r Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd (GRhC). Hefyd, cynllun diwygiedig i'w gyflwyno i'r Panel Dirprwyo i'w gymeradwyo i ddangos y maes parcio ar y lan orllewinol i gael llecynnau parcio ar gyfer dwy fan a threlars i'r busnesau caiacio lleol eu defnyddio; gofyn i'r ymgeisydd edrych ar ongl sgwâr y llwybr ar y lan orllewinol i'w wasgaru neu wneud yn siŵr nad yw'r plannu wrth ei ymyl yn cuddio gweleded i ddefnyddwyr y llwybr; yr ymgeisydd i ymchwilio a fyddai goleuadau PIR yn gweithio ar y bont a'r rampiau.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 2ail Mai, 2023, 2.00 pm**

5. **Cais DM/2022/01831 – Gwelliannau i’r llwybrau i gerddwyr a seiclo ar draws Castle Meadows drwy ddarparu llwybrau sy’n cydymffurfio gyda Theithio Llesol. Mae hyn yn cynnwys uwchraddio’r llwybrau presennol, pwyntiau mynediad a gosod pont droed newydd dros yr Afon Gavenny. Tir yn Castle Meadows, y Fenni, Sir Fynwy.**

Roedd cais DM/2022/01831 wedi'i dynnu'n ôl ychydig cyn i'r Pwyllgor Cynllunio ddechrau gyda'r bwriad o'i gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn i ni ei ystyried.

6. **ER GWYBODAETH – Yr Arolygiaeth Gynllunio – Penderfyniadau am Apeliadau Sydd Wedi’u Derbyn**

**6.1. Fferm Cefn Coed, Lôn Nannys, Kingcoed.**

Roeddem wedi derbyn adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd ar Fferm Cefn Coed, Lôn Nannys, Kingcoed ar 14eg Chwefror 2023.

Gwnaethom nodi bod yr apêl wedi'i chaniatáu, a bod caniatâd cynllunio wedi'i roi i godi porth ar ran uchaf ogleddol yn Fferm Cefn Coed, Nannys Lane, Kingcoed, NP15 1DS, yn unol â thelerau'r cais, Cyf DM/ 2022/01298 5ed Medi 2022, a hynnyn yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen i’r llythyr penderfyniad.

**6.2. Pathways, Vinegar Hill, Gwndy.**

Roeddem wedi derbyn adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn Pathways, Vinegar Hill, Gwndy ar 20fed Mawrth 2023.

Gwnaethom nodi bod yr apêl wedi'i gwrthod.